## P-05-1070 Dylid cynghori pawb yng Nghymru sy'n eithriadol o agored i niwed neu a fu'n cysgodi gynt i aros gartref, nid mynd i'r gwaith, yn ystod cyfnodau pan fo lefel uchel o haint Covid-19 yn y gymuned

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Carol Dent, ar ôl casglu cyfanswm o 252 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**

Dylid ystyried les ac ofn gwirioneddol pobl eithriadol o agored i niwed yn ymwneud â Covid-19 mewn cyfnodau o gyfraddau haint uchel yn y gymuned. Mae llawer o bobl eithriadol o agored i niwed yng Nghymru yn arswydo rhag mynd allan bob dydd i weithio hyd at wyth awr a mwy mewn amgylchiadau sydd, fel y gŵyr pawb, yn anniogel.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Ni chydnabyddir y ffaith bod llawer ohonom yn gweithio mewn mannau caeedig gyda nifer sylweddol o unigolion eraill ac ychydig iawn o awyru. Ni allwn ni leihau cysylltiadau, ac er y bydd masgiau yn lleihau lledaeniad y feirws, ni fyddant yn atal trosglwyddo, fel heintiadau a geir mewn ysbytai a gronynnau Covid-19 aerosol sy'n aros yn yr awyr mewn mannau caeedig am oriau. Rydym wedi dychryn ac yn wynebu'r risg o broblemau iechyd meddwl difrifol, anafiadau corfforol neu farwolaeth oherwydd Covid-19.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberconwy
- Gogledd Cymru